OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 2980 (Cy.259)

HADAU, CYMRU

Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) (Diwygio) 2009

Gwnaed - - - -	*10 Tachwedd 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*11 Tachwedd 2009*
Yn dod i rym - -	*15 Rhagfyr 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, y breiniwyd ynddynt erbyn hyn(**1**) y pwerau a roddir gan adrannau 16(1), (1(A), (2), (3) a 36 o Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau hynny.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cynnal ymgynghoriad yn unol ag adran 16(1) o'r Ddeddf honno.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) (Diwygio) 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 15 Rhagfyr 2009.

Diwygio Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2006

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru 2006(**3**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn y man priodol mewnosoder—

"ystyr "tatws hadyd o amrywiaeth gadwriaethol" ("*seed potatoes of a conservation variety*") yw unrhyw amrywiaeth o datws hadyd a dderbynnir gan unrhyw Aelod-wladwriaeth i'w gatalog cenedlaethol o amrywogaethau yn unol ag Erthygl 3 o Gyfarwyddeb y Comisiwn 2008/62/EC sy'n darparu ar gyfer rhanddirymiadau penodol gogyfer â derbyn rhywogaethau ac amrywiadau tiriol amaethyddol sydd wedi'u haddasu'n naturiol i'r amodau lleol a rhanbarthol ac sydd dan fygythiad drwy erydiad genetig ac ar gyfer marchnata had a thatws hadyd o'r rhywogaethau ac amrywiadau tiriol hynny;".

(3) Ar ôl rheoliad 4, mewnosoder—

(**1**) Yn rhinwedd O.S. 1978/272, O.S. 1999/672 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006; mae'r swyddogaethau bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru.

(**2**) 1964 p.14: diwygiwyd adran 16 gan adran 4(1) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p.68) a pharagraff 5(1), (2) a (3) o Atodlen 4 iddi, O.S. 1977/1112, ac adran 2 o Ddeddf Amaeth 1986 (p.49); *gweler* adran 38(1) am ddiffiniad o "*the Minister*".

(**3**) O.S. 2006/2929 (Cy.264) y mae diwygiad iddynt nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.